**Gwybodaeth Ychwanegol at y Cyfarfod Llawn**
**Information Further to Plenary**

*Cyhoeddir ymatebion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyfieithiad Saesneg o ymatebion yn y Gymraeg.*
*Responses are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.*

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(4)0058(FM) a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Prif Weinidog, ar 29 Gorffennaf 2011**
**Information further to OAQ(4)0058(FM) issued by Carwyn Jones, the First Minister, on 29 July 2011**

**At Alun Ffred Jones:**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r cwestiwn ar gaffael cyheoddus a'r sector adeiladu y gwnaethoch ei godi yn ystod sesiwn Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 28 Mehefin 2011.

Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i annog cyrff cyhoeddus i gydweithredu, ac mae hynny wedi bod yn arbennig o amlwg ym maes caffael. Rhaid rheoli caffael cydweithredol yn ddoeth er mwyn osgoi'r perygl y gall cyflenwyr o Gymru gael eu rhwystro, yn anfwriadol, rhag ymgeisio am gontractau cyheoddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd ar ddatblygu polisiau a chanllawiau caffael er mwyn cefnogi cydweithredu a galluogi cyflenwyr lleol, llai i fanteisio ar gontractau cyhoeddus.

*Agor Drysau: y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig* yw asgwrn cefn polisi caffael cyhoedus Cymru, ac mae'n annog dulliau caffael sy'n hyrwyddo cyfranogiad Busnesau Bach a Chanolig. Mae pob un o'r prif gyrff cyhoeddus wedi ymrwymo i'r Siarter hon, a lansiwyd yn 2006.

Mae Cynlluniwr Siwrnau Caffael ar wefan GwerthwchiGymru yn rhoi cymorth ar-lein i'r sawl sy'n caffael gwasanaethau yn y sector cyheoddus. Mae'n cynnig arweiniad ac adnoddau er mwyn helpu i ddatblygu strategaethau caffael sy'n gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig.

Mae dull cyn-gymhwyso y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuiD) yn rhan hanfodol o'n polisi i alluogi cyflenwyr llai i dendro am gontractau. Drwy'r dull hwn, sy'n cael ei fabwysiadu'n eang ledled y sector cyhoeddus, mae contractwyr o Gymru wedi llwyddo i ennill llefydd ar 22 o'r 39 fframweithiau a chontractau adeiladu mwyaf dros y 18 mis diwethaf.

Cafwyd ymdrech hefyd i gynyddu'r ymwybyddiaeth o fanteision hysbysebu cyfleoedd contract o werth is yn ehangach. O ganlyniad, gwelwyd cynnydd o 24% y llynedd yn y cyfleoedd contract gwerth is a hysbysebwyd drwy GwethwchchiGymru, ac mae'r contractau hyn yn hynod bwysig i gyflenwyr llai, mwy lleol.

Effaith gyffredinol ein dull o ddatblygu polisi caffael sy'n gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig yw bod y gyfran o'r £4.3bn o wariant blynyddol ar gaffael y sector cyhoeddus sy'n mynd i fusnesau o Gymru wedi tyfu o 34% i 50%.

Mae'r ddau fframwaith adeiladu ar y cyd a osodwyd gan gynghorau Powys a Rhondda Cynon Tâf yn gynharach eleni yn dangos bod y canlyniadau, wedi dyfarnu'r contract, yn gallu bod yn wahanol iawn, hyn yn oed pan fo'r strategaethau caffael yn ceisio bod yn gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig. Cyheoddodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ adolygiad 'dysgu gwersi' o'r fframweithiau hyn, ac mae hwn yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Bydd yr

adolygiad hwn yn cynnig tystiolaeth ddefnyddiol iawn a fydd yn llwyio ein dulliau cydweithredu yn y dyfodol, a datblygiad pellach ein polisi caffael, er mwyn helpu cyflenwyr brodorol, llai i fanteisio ar gontractau cyheoddus. Bydd y Grŵp Llywio Caffael Adeiladu yn ystyried argymhellion yr adolygiad hwn.

**To Alun Ffred Jones:**

I am writing in response to the question that you raised regarding public procurement and the construction sector during First Minister's Questions on 28 June 2011.

It is Welsh Government policy to encourage public bodies to collaborate and this has been particularly evidenced through procurement. Collaborative procurement needs to be managed intelligently to avoid the risk of the unintended consequence of Welsh suppliers being precluded from bidding for public contracts. Welsh Government has led on the development of procurement policy and guidance to support collaboration and enable of smaller, local suppliers to access public contract opportunities.

Opening Doors: the Charter for SME Friendly Procurement is the backbone of Welsh public procurement policy and encourages approaches to procurement that support the involvement of SMEs. All major public bodies have signed up to the Charter which was launched in 2006.

On-line assistance is available to public procurers via the sell2wales Procurement Route Planner which contains guidance and resources to support the development of SME friendly procurement strategies.

The Supplier Qualification Investment Database (SQuID) approach to pre-qualification is fundamental to our policy of enabling smaller suppliers to tender for contracts. Through this approach being widely adopted across the public sector, Welsh contractors have secured awards in 22 of 39 major construction frameworks and contracts over the last 18 months.

There has also been a drive to increase the awareness of the benefit of wider advertisement of lower value contract opportunities. Consequently, last year, lower value contract opportunities advertised via sell2wales increased by 24% last year, and these contracts are of utmost importance to smaller, more local suppliers.

The overall effect of our approach to developing SME friendly procurement policy has seen businesses in Wales grow their share of the £4.3bn annual public procurement expenditure from 34% to 50%.

The two collaborative construction frameworks that were let earlier this year by Powys and Rhondda Cynon Taf councils illustrated that, even where procurement strategies aim to be SME friendly, there can still be very different outcomes when contract awards are established. The Minister for Finance and Leader of the House announced a 'lessons learned' review of these frameworks and this is currently underway. This review will provide very helpful evidence which will inform future approaches to collaboration and further development our procurement policy of facilitating smaller, indigenous suppliers to access public contracts. The recommendations of this review will be considered by the Construction Procurement Steering Group.